**Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol**
—
**Health and Social Care Committee**

**Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus**
—
**Public Accounts and Public Administration Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddIechyd@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddIechyd
SeneddCCGG@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddCCGG
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddHealth@senedd.wales
senedd.wales/SeneddHealth
SeneddPAPA@senedd.wales
senedd.wales/SeneddPAPA
0300 200 6565

Prif Weithredwyr byrddau iechyd

5 Rhagfyr 2022

Annwyl gyfaill

System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru

Ddydd Mercher 26 Hydref cynhaliodd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus sesiwn gydamserol i graffu ar Iechyd a Gofal Digidol Cymru.

Yn dilyn y sesiwn dystiolaeth, cytunodd yr Aelodau i ysgrifennu atoch i ofyn am wybodaeth am y materion a amlinellir yn yr atodiad i'r llythyr hwn.

Gan y byddwn yn dychwelyd at y materion hyn y tymor nesaf, byddem yn croesawu ymateb gennych erbyn 13 Ionawr 2023.

Yn gywir

Russell George AS
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Mark Isherwood AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg. We welcome correspondence in Welsh or English.

## Atodiad: cwestiynau i fyrddau iechyd yn dilyn y gwaith craffu ar Iechyd a Gofal Digidol Cymru ar 26 Hydref 2022

Yn dilyn sesiwn graffu gyffredinol y Pwyllgor gydag Iechyd a Gofal Digidol Cymru ar 26 Hydref 2022, byddem yn croesawu gwybodaeth am y materion a restrir isod. Byddem yn ddiolchgar o gael eich ymateb erbyn 13 Ionawr 2023.

1. A yw eich bwrdd iechyd wedi cytuno i fabwysiadu System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru?

2. Os felly, trosolwg o'r sefyllfa bresennol o ran gweithredu System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru o fewn y bwrdd iechyd

3. Os yw eich bwrdd iechyd wedi dewis defnyddio system wahanol yn lle System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru:

    a. Y rhesymau dros benderfynu gwneud hynny;

    b. A yw'r system honno'n rhyngweithredol â System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru;

    c. Unrhyw risgiau posibl sydd wedi eu nodi, a sut maen nhw'n cael eu rheoli.